
**Rhif**: **3**

**Rhif y Cais / Application Number : C15/0793/32/LL**

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**





Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey
gyda chaniatâd yr Ordnance Survey
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.
© Hawlfraint y Goron.
Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri
hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2006

This map is reproduced from Ordnance Survey material
with the permission of Ordnance Survey
on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office
© Crown copyright.
Unauthorised reproduction infringes Crown copyright
and may lead to prosecution or civil proceedings.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2006

Cais Rhif: C15/0793/32/LL
Dyddiad Cofrestru: 23/11/2015
Math y Cais: Llawn - Cynllunio
Cymuned: Botwnnog
Ward: Botwnnog

Bwriad: ADEILADU FFERM SOLAR A GWAITH CYSYLLTIOL
Lleoliad: NANHORON ESTATE, BOTWNNOG, PWLLHELI, GWYNEDD, LL53 8DP

**Crynodeb o'r Argymhelliad:** DIRPRWYO'R HAWL I GANIATAU

## 1. Disgrifiad:

1.1 Gohiriwyd y cais ym Mhwyllgor Cynllunio 1 Chwefror 2016 er mwyn trefnu ymweliad safle. Mae hwn yn gais ar gyfer gosod paneli solar ffotofoltaidd ar dir amaethyddol am gyfnod o 30 mlynedd ar gyfer creu fferm solar, ynghyd a gwaith atodol sy'n cynnwys gosod cyfarpar i gysylltu â'r rhwydwaith drydan, compownd adeiladu, ffens ddiogelwch, gwelliannau tirweddu ac addasiadau i'r fynedfa.

1.2 Mae safle'r cais yn mesur oddeutu 12 hectar (22.6 acer) ac mae'n cynnwys tir amaethyddol gradd 3b a 4 sydd wedi ei leoli ar lethr esmwyth oddeutu 700 medr i'r de ddwyrain o bentref Botwnnog. Mae'r safle mewn cefn gwlad agored ymhlith tirwedd donnog. Mae coedwig aeddfed tuag at ffin ddwyreiniol y safle ac mae gwrychoedd o amgylch mwyafrif caeau'r safle.

1.3 Gorwedd y safle o fewn Ardal Gwarchod y Dirwedd a hefyd oddi mewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llyn ac Ynys Enlli. Mae AHNE Llyn wedi ei leoli oddeutu 450 medr i'r de, 625 medr i'r gogledd ddwyrain a 1km i'r dwyrain. Ceir mynediad i'r safle oddi ar y B4413 sydd wedi ei leoli oddeutu 360 medr tua'r gogledd orllewin. Ar ran o ffin ddwyreiniol y safle mae adeilad carreg ac ychydig ymhellach draw i'r dwyrain mae llwybr cyhoeddus. Ceir rhai tai annedd gwasgaredig yng nghyffiniau'r safle.

1.4 Fe fyddai'r parc solar arfaethedig yn cynhyrchu hyd at 5Mw o drydan yn flynyddol. Mae'r cais yn cynnwys yr elfennau isod:

- Rhesi o baneli PV wedi eu gosod ar draws y safle o'r gorllewin i'r dwyrain. Fe osodir y paneli ar byst dur i uchder o 2.5m yn uwch na lefel y ddaear yn y mwyafrif ond gall fod hyd at 2.7m o uchel yn ddibynnol ar y topograffi. Bydd bwlch rhwng y rhesi yn amrywio o 5.1m - 7.6m yn ddibynnol ar natur a goleddf y topograffi a gydag oddeutu 25% o'r safle yn cael ei orchuddio gan y paneli. Bwriedir defnyddio paneli PV o liw glas tywyll a ble nad oes ffrâm fetel o'u hamgylch.
- 3 uned gwrthdroi (inverter) sy'n mesur 11.23 medr o hyd, 1.98 medr o led ac 2.8 medr o uchel. Byddai'r strwythurau yma ar ffurf cabanau.
- Bwriedir lleoli un is-orsaf trosglwyddo trydan (DNO) yn mesur 10.2 medr wrth 3.4 medr a gydag uchder o 3.4 medr mewn lliw gwyrdd.
- Gorsaf gasglu o liw gwyrdd yn mesur 8.3 medr wrth 3.1 medr a gydag uchder o 2.9 medr.
- Un cynhwysydd storio cyffredinol o liw gwyrdd yn mesur 12.2 medr wrth 2.4 medr a gydag uchder o 2.6 medr ar gyfer storio offer cynnal a chadw'r paneli PV.
- Ffens diogelwch 2 fedr o uchel o amgylch y safle. Byddai'r ffens o fath rhwyll wifrog o liw gwyrdd a ble gellir cael bylchau yn ei gwaelod a fyddai'n galluogi anifeiliaid bach i fynd trwyddi.

- 3 camerâu cylch cyfyng ar bolyn 6.6 medr. Byddai'r polion o liw gwyrdd a byddent wedi eu dosbarth o fewn y safle.
- System fonitro PADCON ar gyfer asesu iechyd y paneli. Byddai'r system yma yn cynnwys camera ar bolyn 2.8m o uchel a dau focs cyfathrebu yn mesur 1.05 medr wrth 0.32 medr ac yn 1.25 medr o uchel.
- 3 synhwyrydd gwynt ac arbelydriad wedi eu lleoli ar is-strwythur y paneli.
- Trac i wasanaethu'r datblygiad gydag wyneb gro a gyda bwnd pridd isel oddeutu 0.25 medr o uchel naill ochr i'r trac.
- Addasiadau i'r fynedfa bresennol.
- Compownd adeiladu dros dro a goleuadau dros gyfnod y gwaith adeiladu.

1.5 Mae'r dogfennau a restrir isod wedi eu cyflwyno fel rhan o'r cais:

- Datganiad Cynllunio, Dylunio a Mynediad
- Asesiad Tirlun ac Effaith Gweledol
- Ffotogyfosodiadau o'r safle
- Cynllun Gwerthusiad Mynediad a Rheolaeth Traffig
- Gwerthusiad Ecolegol
- Cynllun Rheoli Tirwedd a Bioamrywiaeth
- Arolwg Cyfyngiadau Coed
- Asesiad Archeolegol a Threftadaeth Ddiwylliannol
- Adroddiad arolwg geoffisegol
- Asesiad Pridd a Dosbarthiad Tir Amaethyddol
- Adendwm Asesiad Pridd a Dosbarthiad Tir Amaethyddol
- Astudiaeth fflachio (glint) ynghyd ac atodiad iddo mewn ymateb i wrthwynebiad
- Datganiad o ymglymiad cymunedol.
- Datganiad dull dadgomisiynu.
- Asesiad safle neillog
- Datganiad dull adeiladu
- Asesiad Canlyniadau Llifogydd

1.6 Mae'r bwriad wedi ei sgrinio a chadarnhawyd nad oedd angen Asesiad Effaith Amgylcheddol yn yr achos yma.

1.7 Cyflwynir y cais i Bwyllgor oherwydd graddfa'r datblygiad sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd.

## 2. Polisïau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

2.2 **Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

POLISI STRATEGOL 9 – YNNI – Caniateir cynlluniau i ddarparu ynni o ffynonellau adnewyddadwy na fyddai'n niweidio'r amgylchedd neu fwynderau trigolion cyfagos mewn modd arwyddocaol.

A1 - ASESIADAU AMGYLCHEDDOL NEU ASESIADAU EFFEITHIAU ARALL - Sicrhau fod gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu gyda'r cais cynllunio ynglŷn ag unrhyw effeithiau amgylcheddol neu eraill sylweddol tebygol ar ffurf asesiad amgylcheddol neu asesiadau o effeithiau eraill.

A3 - EGWYDDOR RAGOFALUS - Gwrthod cynigion os oes unrhyw bosibilrwydd o ddifrod difrifol neu anwrthdroadwy i'r amgylchedd neu'r gymuned os na ellir dangos heb amheuaeth ar ddiwedd asesiad priodol o'r effeithiau y gellir negyddu neu liniaru'r effaith.

B3 - DATBLYGIADAU SY'N EFFEITHIO AR OSODIAD ADEILAD RHESTREDIG Sicrhau nad yw cynigion yn cael effaith ar osodiad Adeiladau Rhestredig oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn anelu i warchod cymeriad arbennig yr Adeilad Rhestredig a'r amgylchedd leol.

B7 - SAFLEOEDD O BWYSIGRWYDD ARCHEOLEGOL - Gwrthod cynigion fydd yn difrodi neu ddifetha gweddillion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol (boed yn rhai cofrestredig ai pheidio) neu eu gosodiad. Gwrthodir hefyd datblygiad fydd yn effeithio ar weddillion archeolegol eraill oni bai bod yr angen am y datblygiad yn drech nag arwyddocâd y gweddillion archeolegol.

B8 - ARDALOEDD O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL (AHNE) LLŶN A MÔN - Gwarchod, cynnal a gwella cymeriad yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol drwy sicrhau bod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig y safle yn unol â gofynion statudol Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

B10 - DIOGELU A CHYFOETHOGI ARDALOEDD GWARCHOD Y DIRWEDD - Yn diogelu a chyfoethogi Ardaloedd Gwarchod y Tirlun drwy sicrhau fod yn rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn anelu i osgoi niwed arwyddocaol i nodweddion cydnabyddedig.

B12 - GWARCHOD TIRWEDDAU, PARCIAU A GERDDI HANESYDDOL - Gwarchod tirweddau, parciau a gerddi ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru rhag datblygiadau a fyddai'n achosi niwed arwyddocaol i'w cymeriad, eu hedrychiad neu eu gosodiad.

B20 - RHYWOGAETHAU A'U CYNEFINOEDD SY'N BWYSIG YN RHYNGWLADOL A CHENEDLAETHOL - Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi aflonyddwch neu niwed annerbyniol i rywogaethau a warchodir a'u cynefinoedd oni bai y gellid cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion cydnabyddedig y safle.

B22 - DYLUNIAD ADEILADAU - Hyrwyddo dyluniad adeiladau da drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y dirwedd a'r amgylchedd lleol.

B23 - MWYNDERAU - Diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau'r ardal leol.

B25 - DEUNYDDIAU ADEILADU - Gwarchod cymeriad gweledol trwy sicrhau fod yn rhaid i ddeunyddiau adeiladu fod o safon uchel sy'n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol.

B27 - CYNLLUNIAU TIRLUNIO - Sicrhau fod cynigion a ganiateir yn ymgorffori tirlunio meddal/caled o safon uchel sy'n briodol ar gyfer y safle ac sy'n ystyried cyfres o ffactorau sy'n anelu i osgoi niwed i nodweddion cydnabyddedig.

B32 - YCHWANEGU AT DDWR WYNEB - Gwrthod cynigion na fyddant yn cynnwys mesurau lleihau llif neu fesurau lliniaru priodol fydd yn arwain at ostwng maint a graddfa'r dŵr wyneb fyddai'n cyrraedd ac yn llifo i afonydd a chyrsiau dŵr eraill.

B34 - LLYGREDD GOLAU A GOLEUNI - Sicrhau nad yw cynigion yn amharu'n sylweddol ar amwynder defnydd tir cyfagos a'r amgylchedd.

C1 - LLEOLI DATBLYGIAD NEWYDD - Tir o fewn ffiniau datblygu trefi a phentrefi a ffurf ddatblygedig pentrefi gwledig fydd y prif ffocws ar gyfer datblygiadau newydd. Gwrthodir adeiladau, adeiladweithiau a chyfleusterau atodol newydd yng nghefn gwlad ar wahân i ddatblygiad sy'n cael ei ganiatáu gan bolisi arall yn y Cynllun.

C27 - CYNLLUNIAU YNNI ADNEWYDDADWY A CHYNALIADWY - Caniatáu cynigion am gynlluniau ynni adnewyddadwy a rheoli ynni cyn belled ag y gellir cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn ymwneud ag effaith ar ansawdd gweledol y dirwedd a ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol.

C28 - DIOGELU TIR AMAETHYDDOL - Gwrthodir cynigion a fyddai'n arwain at golli tir amaethyddol graddau 1, 2 neu 3a oni ellir dangos bod angen hollbwysig am y datblygiad, y gellir profi nad oes tir a ddatblygwyd o'r blaen ar gael ac nad oes tir o raddau amaethyddol is ar gael heblaw tir ag iddo werth amgylcheddol sy'n gorbwyso ystyriaethau amaethyddol.

CH33 - DIOGELWCH AR FFYRDD A STRYDOEDD - Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol sydd yn ymwneud a'r fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu traffig.

Adroddiad Terfynol Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri (Mawrth 2014)

2.3 **Polisïau Cenedlaethol:**
Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8 Ionawr 2016)
Nodyn Cyngor Technegol 8: Ynni Adnewyddadwy (2005)
Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2014)

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Nid oes hanes cynllunio perthnasol.

**4. Ymgynghoriadau:**

Cyngor Cymuned/Tref: Cefnogi.

Uned Drafnidiaeth: Dim gwrthwynebiad i'r bwriad. Mae dogfen 'access appraisal and traffic management plan' yn ymateb i ran helaeth o'r ystyriaethau trafnidiaeth ac argymhellaf amodau / nodiadau i sicrhau fod y mesuriadau priodol yn cael ei roi mewn lle cyn cychwyn ar unrhyw waith ar y safle.

Cyfoeth Naturiol Cymru: **Sylwadau dyddiedig 22 Ionawr 2016**
Yn dilyn cyflwyno gwybodaeth ychwanegol yn cynnwys safbwyntiau gweledol yn dangos y safle a'i ehangder wedi ei

farcio yn glir o fewn yr olygfa cadarnheir ein bod yn fodlon y gall y fferm solar arfaethedig gael ei chymhwyso heb effaith sylweddol ar olygfeydd o'r AHNE. Mewn amgylchiadau o'r math yma mae ffactorau fel natur ystod eang golygfeydd, pellteroedd yr olygfa a lleoliad y datblygiad yn y tirlun sydd gyda patrwm gweledol cryf ac amrywiaeth lliw yn deillio o'r clytwaith o gaeau, partyrmau caeau a coedwigoedd i gyd yn gymorth i leihau cyferbyniad a presenoldeb gweledol y datblygiad yn y tirlun. Cadarnheir felly nad oes gwrthwynebiad i'r bwriad yn ddarostyngedig i gynnwys amod ar unrhyw ganiatad sydd yn cynnwys y mesurau lliniaru tirlun gynwysir yn rhan 7 o'r ATEW (Wardell Armstrong Awst 2015).

Atgoffir hefyd o'r amodau a argymhellwyd yn ein llythyr blaenorol dyddiedig 16 Rhagfyr 2015 yn ymwneud gyda risg llifogydd.

**Sylwadau yn ymwneud gyda llifogydd o ohebiaeth dyddiedig dyddiedig 16 Rhagfyr 2015**

Mae safle'r cais yn gorwedd ym mharth A, fel y diffinnir gan y map cyngor datblygu (dam) y cyfeirir ato yn TAN 15 Datblygiadau a Pherygl Llifogydd (Gorffennaf 2004). Er bod TAN 15 yn dangos fod llifogydd yn annhebygol o gyfyngu ar ddatblygiadau yn y parth yma, darparwyd Asesiad Canlyniadau Llifogydd (ACLl) i ddelio gyda unrhyw bryderon llifogydd o ddŵr wyneb neu ddŵr ffo sy'n gysylltiedig gyda'r datblygiad. Cytunwn yn gyffredinol gyda chanfyddiadau'r ACLl (Wardell Armstrong, Tir i'r de-ddwyrain o Fotwnnog, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8DP, CA10881, Awst 2015).

Gellid darparu camau lliniaru pellach ar ffurf Cynllun Rheolaeth Pridd i sicrhau fod rheoliadau priodol yn eu lle i ddiogelu ffurf y pridd yn ystod y cyfnod adeiladu, gweithredu a dadgomisiynu er mwyn osgoi gormod o gywasgu ar ffurf y pridd. Gallai cywasgu'r pridd yn sylweddol leihau'r graddfeydd ymdreiddio gan felly gynyddu graddfeydd y dŵr ffo o'r dŵr wyneb ddaw o'r safle a ddatblygwyd. Efallai y bydd eich Awdurdod o'r farn y bydd hi'n briodol i gynnwys amod cynllunio mewn unrhyw ganiatâd cynllunio, sy'n gofyn i Gynllun Rheolaeth Pridd gael ei weithredu i leddfu unrhyw gywasgu pridd a helpu i sicrhau fod ffurf y pridd yn cael ei gadw mewn 'cyflwr da' trwy gydol, ac ar ôl oes y cynllun. Rydym felly yn gofyn fod amodau yn cael eu cynnwys i gyflwyno, cymeradwyo a gweithredu system i reoli'r dŵr wyneb a hefyd na fydd unrhyw adeiladau, strwythurau na bod lefel y ddaear yn cael ei chodi o fewn 4 metr i ben torlan unrhyw gwrs dŵr.

Dŵr Cymru:

Cyflwyno sylwadau o safbwynt fod y safle yn cael ei groesi gan brif bibell ddŵr a'u bod angen dealltwriaeth o sut y bydd eu hoffer yn cael ei ddiogelu yn ystod y gwaith adeiladu a sut y byddent yn cael mynediad i'w hoffer yn dilyn y datblygiad.

Gwarchod y Cyhoedd: Heb eu derbyn.

Uned Bioamrywiaeth: Mae Adroddiad Ecolegol a Chynllun Rheolaeth Bioamrywiaeth a Thirwedd wedi eu cyflwyno gyda'r cais:

- Botwnnog Solar Farm, Ecology Apraisal 2 Medi 2015
- Botwnnog Solar Farm, Landscape And Biodiversity Management Plan Awst 2015

Rwyf yn fodlon gyda chynnwys a chasgliadau'r Asesiad Ecolegol. Mae'r arolygon yn yr adroddiad yn ddigonol ac rwyf yn cyd-fynd a'r argymhellion lliniaru a gwelliannau bioamrywiaeth sydd wedi eu hargymell.

Mae manylion mesurau lliniaru a gwelliannau wedi eu cynnwys yn y cynllun rheolaeth. Hoffwn gynnwys amod fod y mesurau yn Nhabl 1 Management Activities Schedule yn cael eu dilyn yn union.

Yn ychwanegol i hyn hoffwn gynnwys yr amodau canlynol:

- Dylai'r datblygwr gyflwyno Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu (Construction Environmental Management Plan- CEMP) yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod cyn i'r gwaith gychwyn. Dylai gynnwys mesurau atal llygredd ar ffurff "pollution incident control plan"
- Dylai'r datblygwr gyflwyno manylion cymysgedd hadau ar gyfer creu porfa i'r awdurdod am gymeradwyaeth cyn i'r gwaith ail-hadu gychwyn.
- Dylai'r datblygwr gyflwyno manylion lleoliad blychod ystlumod ag adar i'r awdurdod unwaith mae'r manylion wedi eu penderfynu.
- Dylai'r datblygwr gyflwyno canlyniad asesiadau blynyddol ynghyd a chynllun rheolaeth ddiwygiedig ar ddiwedd cyfnod 5 mlynedd gyntaf y Cynllun fel y manylir yn Amcan 6 o'r Cynllun Rheolaeth

Rwyf yn cytuno gyda chasgliad y cynllun rheolaeth fod gan y datblygiad yma'r potensial i ddod a budd i fioamrywiaeth yn y tymor hir

Uned Goed: Rwyf wedi darllen yr adolygiad coed ac rwyf yn cytuno hefo cynnwys yr adroddiad. Does dim coed i weld yn cael ei amharu pe byddai'r cais yn cael ei ganiatáu . Mae'r ymgeisydd yn cynnig gwneud 'arboricultural impact statement' ac 'arboricultural method statement' ac mae yna son am blannu coed newydd i gymryd drosodd rhai o'r hen goed sydd ar y safle. Does gen i ddim gwrthwynebiad i'r cais cyn belled a bod yr adolygiad coed yn cael ei ddilyn.

Uned AHNE: Mae'r egwyddor o greu ynni adnewyddol yn ganmoladwy gan y bydd yn lleihau'r angen am ynni confensiynol ac felly yn lleihau llygredd amgylcheddol. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau nad yw datblygiadau yn amharu yn annerbyniol ar nodweddion naturiol a mwynderau lleol.

Yn yr achos yma nid yw’r safle yn amlwg iawn ar y tirlun gwledig oherwydd cyfuniad o ffactorau. Hefyd, fel rhan o’r datblygiad bwriedir cyflwyno rhai mesurau i gyfyngu ar effaith gweledol y datblygiad – yn cynnwys plannu gwrych a llenwi bylchau mewn gwrychoedd.

Nid yw safle’r datblygiad arfaethedig yn yr AHNE ond mae’n weddol agos i’r ffin a derbynnir byddai yn weladwy o rai mannau yn yr AHNE – ond golygfeydd o bell fyddai hynny yn bennaf (megis tiroedd uwch yn ardal Rhiw a Garn Fadryn).

Rhoddir sylw manwl i effaith gweledol tebygol y datblygiad yn y ddogfen Asesiad Tirlun ac Effaith Gweledol sydd wedi ei gyflwyno. Nid oes achos i anghytuno gyda chasgliadau’r Asesiad ac ni chredir y byddai yn cael effaith arwyddocaol ar yr AHNE.

Nodir, a chefnogir y bwriad i wella tirlunio - os bwriedir caniatáu’r cais awgrymir amod i sicrhau fod gwrychoedd yn cael eu cwblhau yn unol â safonau Glastir ac yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac amod i atal unrhyw olau ar y safle yn y nos.

Cadw:

Mae rhan Cadw yn y broses gynllunio yn golygu ein bod yn darparu asesiad i'r awdurdod cynllunio lleol ynglŷn â'r effaith debygol y bydd gan y bwriad ar henebion cofrestredig neu barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig. Mater i'r awdurdod cynllunio lleol yw pwyso a mesur asesiad Cadw yn erbyn yr holl ystyriaethau materol eraill wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo caniatâd cynllunio, gan gynnwys materion sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth.

Lleolir y datblygiad arfaethedig yn y tirlun hanesyddol a elwir yn Ardal o Ddiddordeb Hanesyddol Llŷn ac Ynys Enlli. Mae gan y bwriad y posibilrwydd i fod â mwy na dim ond effaith leol ar Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llŷn ac Ynys Enlli oherwydd ei raddfa, gan ei fod yn fwy na 12 ha o ran arwynebedd. Mae ardal y datblygiad arfaethedig ychydig uwchben Ceunant pwysig Nanhoron, ac o fewn ardal cymeriad y dirwedd 15, Neigwl. Er hynny, mae Ardal Cymeriad Neigwl yn fawr o'i gymharu gyda graddfa'r datblygiad yn yr achos yma a ni fyddem yn ystyried y byddai ASIDOHL2 yn gynhyrchiol yn yr achos yma.

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd:

Mae’r adroddiadau archeolegol gyflwynwyd gyda’r cais wedi eu gwneud mewn cydymffurfiaeth gyda gofynion cynllunio a phroffesiynol. Ni allaf gytuno gyda’r asesiad a’r argymhellion mewn perthynas gyda potensial o weddillion archeolegol gladdedig. Er nad yw’r un o’r adroddiadau wedi adnabod archeoleg clir ar y safle, mae canlyniadau’r arolwg geoffisegol yn amhendant. Cytunir y gall llawer o’r anghysondebau gael eu priodoli i darddiad naturiol neu amaethyddol diweddar, er mae’r canlyniadau yn y cae deheuol yn ddangosol o dir gwlyb ble gall anghysondebau

| | |
|---|---|
| | archeolegol fod yn aneglur. Yn y cae gogleddol adnabu'r arolwg anghysondebau cromliniog mewn dwy ardal. Mae rhain wedi cael eu dehongli dros dro fel daearegol, ond mae eu ffurf a'u lleoliad ar lawr gymharol wastad uwchben cwrs dwr ac yn agos i gydlifiad yn dangos fod tarddiad archaeolegol yn bosibl. Mae'r dehongliad archeolegol mwyaf posibl yn un o loc cyn hanes. Mae un o'r ardaloedd yma yn cyd-daro gyda lleoliad arfaethedig y prif gompownd ac felly gall gael effaith ar osodiad, ac o bosibl dichonoldeb y bwriad pe bai yn cael ei gadarnhau yn archeolegol. Mae angen rhagor o waith ymchwil yn cynnwys ffosydd prawf er mwyn sefydlu os yw'r anghysondebau geoffisegol yn naturiol neu archaeolegol ac i sefydlu dilysrwydd canlyniadau'r arolwg a'r potensial am weddillion archeolegol. Gan fod angen y wybodaeth i alluogi asesu effaith y datblygiad ar yr amgylchedd hanesyddol mae'n rhaid i'r ffosydd prawf gael ei wneud cyn penderfynu ar y cais cynllunio. |
| Scottish Power: | Heb eu derbyn. |
| Cynllunio Defnydd Tir, Llywodraeth Cymru: | Aseswyd y dogfennau Asesiad Pridd a Dosbarthiad Tir Amaethyddol a'r Adendwm Asesiad Pridd a Dosbarthiad Tir Amaethyddol ac maent mewn cydymffurfiaeth gyda'r Canllawiau a Meini Prawf Diwygiedig ar gyfer Graddio Tir Amaethyddol (MAFF 1988). Mae'r canlyniadau yn cynnig adlewyrchiad teg a dibynadwy o ansawdd y tir amaethyddol ar draws y safle. |
| Uned Rheoli Risg Llifogydd ac Erydiad Arfordirol: | Cyflwyno sylwadau o ran angen i ddiogelu cyrsiau dwr. |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Daeth y cyfnod hysbysebu i ben a derbyniwyd 2 llythyr / gohebiaeth yn gwrthwynebu ar sail:<br>• Un gwrthwynebydd yn gwrthwynebu'n benodol datblygu'r lleiaf o'r ddau gae.<br>• Effaith gweledol y bwriad.<br>• Effaith ar yr AHNE.<br>• Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri (Mawrth 2014) yn nodi fod yr ardal yma gyda sensitifrwydd uchel i ddatblygiadau solar ac yn argymell nad oes yna unrhyw gapasiti ar gyfer datblygiadau ynni solar ar raddfa cae.<br>• Effaith andwyol ar yr olygfa weledol o'r eiddo.<br>• Pryderon am effaith fflachio a llacharedd.<br>• Dim enghreifftiau o bridd o'r cae lleiaf o'r ddau wedi ei gymryd yn y ddogfen Asesiad Pridd a Dosbarthiad Tir Amaethyddol<br>• Un gwrthwynebydd yn argymell defnyddio'r cae i'r gogledd orllewin yn hytrach na'r cae lleiaf sydd yn ffurfio rhan o'r cais.<br>Derbyniwyd 1 llythyr / gohebiaeth yn cefnogi y cais ar sail:<br>• Ei fod yn syniad da. |

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae polisi C1 o'r Cynllun Datblygu Unedol yn ymwneud â lleoli datblygiad newydd, ac mae'n datgan mai tir o fewn ffiniau datblygu trefi a phentrefi a ffurf ddatblygedig pentrefi gwledig fydd y prif ffocws ar gyfer datblygiadau newydd. Gwrthodir adeiladau, adeiladweithiau a chyfleusterau atodol newydd yng nghefn gwlad ar wahân i ddatblygiad sy'n cael ei ganiatáu gan bolisi arall yn y Cynllun. Mae datblygiadau cynhyrchu ynni adnewyddadwy sy'n defnyddio adnoddau naturiol yn cael ei nodi yn benodol fel datblygiad a ellir fod yn addas ac sy'n cael ei ganiatáu gan bolisi arall yn y Cynllun, ac felly ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio â gofynion y polisi yn y modd yma. Er hyn, ai'r polisi ymlaen i ddatgan fod adeiladau, adeiladwaith a chyfleusterau atodol newydd yng nghefn gwlad yn cael eu rheoli yn llym a dylid sicrhau perthynas weledol dda rhyngddynt a datblygiadau presennol lle bynnag y bod modd, mae hyn yn cael ei asesu yn unol â'r polisïau perthnasol hynny isod.

5.2 Mae polisi C27 CDUG yn caniatáu cynigion am gynlluniau ynni adnewyddadwy cynaliadwy a rheoli ynni cyn belled ag y gellir cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn ymwneud ag effaith ar ansawdd gweledol y dirwedd a ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol.

5.3 Mae maen prawf rhif 1 o'r polisi yn nodi na ddylai unrhyw fwriad olygu lleoli cynllun gyda chynhwysedd uwch na 5mw o fewn AHNE Llyn, neu na fyddai unrhyw gynllun sydd wedi cael ei leoli tu allan i AHNE Llyn yn achosi niwed arwyddocaol i'w osodiad neu osodiad AHNE Llyn/Môn neu Barc Cenedlaethol Eryri. Yn yr achos yma, nid yw'r bwriad wedi ei leoli o fewn AHNE Llyn; ond mae'r AHNE wedi ei leoli oddeutu 450 medr i'r de, 625 medr i'r gogledd ddwyrain a 1km i'r dwyrain o'r safle. Mae'r bwriad wedi ei leoli ar gaeau gyda llethr esmwyth a cheir coedwig aeddfed tuag at ffin ddwyreiniol y safle ac mae gwrychoedd amrywiol o amgylch mwyafrif caeau'r safle. Tua'r gogledd mae'r tir yn codi. Mae'r tir tua'r gorllewin o'r safle yn disgyn ac mae safle'r cais fel petai wedi ei leoli ar grib y llethr gyda thir safle'r cais yn lefelu allan ac felly o ran y tirffurf nid yw mor amlwg â'r caeau tua'r gorllewin o'r safle. Mae'r hyn hefyd yn wir o ran y tir sydd tua'r de o'r safle. Mae ffurf tirwedd, coed a llwyni ynghyd a chloddiau uchel a lonydd troellog a chul yn cyfyngu ar welediad y safle o diroedd o fewn yr AHNE. Er y byddai'n bosibl gweld rhannau o'r datblygiad arfaethedig o fannau uwch o fewn yr AHNE fel Mynydd Rhiw a Garn Fadryn, byddai hynny o bellter.. Fodd bynnag, ni ystyrir y byddai'r bwriad yn achosi effaith arwyddocaol ar yr AHNE. Ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio gyda'r maen prawf 1 o bolisi C27.

5.4 Datgan maen prawf 2, C27 y dylai math, graddfa a dyluniad y datblygiad arfaethedig fod yn briodol o safbwynt safle, y lleoliad a'r effaith ar y dirwedd. Mae'r bwriad ar gyfer darparu paneli solar ar dir sy'n ymestyn am ryw 12ha. Mae gwaith wedi ei wneud yn ddiweddar gan gwmni Gillespies ar ran y Cyngor yn asesu sensitifrwydd a chapasiti y dirwedd i ymdopi gyda mathau penodol o ddatblygiadau. Yn ôl y gwaith sydd wedi ei wneud, mae safle'r cais wedi ei leoli o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd G07 Gorllewin Llyn. Mae'r gwaith yn datgan nad oes capasiti ar gyfer datblygiadau ynni solar ar raddfa cae (field-scale) o fewn yr ardal yma ac eithrio datblygiadau lefel micro a ddylai fod a pherthynas dda gydag anheddau / adeiladau presennol. O dan ddiffiniad Gillespies, datblygiad graddfa fawr fyddai datblygiad 10 - 20 hectar. Datgan yr asesiad fod sensitifrwydd yn amrywio yn lleol o fewn yr Ardal Cymeriad Tirwedd, ac y dylid ystyried tystiolaeth sydd wedi cael ei gyflwyno ar geisiadau ynghyd ag asesiad swyddog achos o ymweld â'r safle cyn penderfynu os yw natur y

safle yn gallu ymdopi gyda datblygiad ar raddfa fwy na'r hyn a argymhellir yng ngwaith Gillespies. O ystyried natur donnog y dirffurf a'r tirweddu presennol, credir bod capasiti yma i ymdopi ac integreiddio'r datblygiad graddfa fawr i'r dirwedd.

5.5 Cyflwynwyd Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol (ATEW) sy'n cynnwys ffotogyfosodiadau gyda'r cais. Mae'r ffotogyfosodiadau wedi eu tynnu o fannau agos ac o diroedd uwch o fewn yr AHNE. O uchel fannau'r AHNE byddai golygfeydd o'r datblygiad yn fychan, gyda ffurf y dirwedd, coed a llwyni, cloddiau uchel a lonydd troellog a chul yn cyfyngu ar welediad ac yn gymorth i integreiddio'r datblygiad i'r dirwedd oddi amgylch. Mae'r ATEW yn cydnabod y byddai'r ardrawiad ar y dirwedd a'i effaith weledol yn waeth yn ystod y cyfnod adeiladu na pan fydd y datblygiad wedi cael ei gwblhau. Daw'r ATEW i'r canlyniadau a ganlyn am y bwriad yn dilyn ei adeiladu:-

- Effaith dibwys groes (negligible adverse) ar yr Ardal Cymeriad Tirwedd yn ei gyfanrwydd gan gynnwys yr AHNE.
- Effaith dibwys i fychan-canolig groes o effaith gweledol ar briffyrdd.
- Effaith ganolig groes o'r trac tua'r de o'r safle ble mae mynedfa giât i gae.
- Effaith dibwys i fychan groes o hawliau tramwy ble mae golygfeydd o'r datblygiad ar gael.
- Effaith weledol o hawliau tramwy o fewn yr AHNE yn ddibwys i fychan groes.
- Effaith dibwys i fychan-canolig a'r eiddo yn ardal yr astudiaeth.
- Unwaith y bydd mesurau plannu lliniaru wedi tewhau yn ddigonol i sgrinio golygfeydd byddai'r effaith weledol yn gyffredinol ddim yn fwy nag effaith groes fychan.

Daw'r asesiad i'r canlyniad fod y bwriad yn unol â Pholisïau B8 a B10 CDUG a bod dyluniad y cynllun wedi ei ddiwygio er tynnu'r cae mwyaf amlwg, oedd i'r gorllewin o'r safle, o'r cynllun er lleihau ei effaith. Ystyrir hefyd fod lleoli'r trac mynediad ger gwrychoedd / coed presennol ynghyd a defnyddio deunyddiau o liw gwyrdd tywyll ar gyfer y cyfarpar atodol ar y safle hefyd yn gymorth i leihau effaith y bwriad..

5.6 Mae'r bwriad wedi ei leoli ar gaeau gyda llethr esmwyth gyda choed tua'r ffin ddwyreiniol a ble mae gwrychoedd o amgylch mwyafrif caeau'r safle. Bwriedir hefyd ychwanegu rhes o wrych ger ochr gogledd dwyreiniol y safle. Mae'r tirlunio presennol a'r mesurau tirlunio sy'n cael eu cynnig ynghyd a ffurf y dirwedd o amgylch yn gymorth i ymgorffori'r datblygiad i'r safle. Ystyrir felly fod graddfa a dyluniad y datblygiad yn briodol i'r safle o safbwynt ei effaith ar y dirwedd, felly yn cydymffurfio a maen prawf 2 polisi C27.

5.7 Mae maen prawf rhif 3 o'r polisi yn nodi y dylai unrhyw gyfarpar atodol cysylltiedig fod wedi ei ddylunio a'i leoli mewn modd fydd yn lleddfu'r effaith weledol ar y dirwedd. Mae'r bwriad hwn yn cynnwys gosod 3 gorsaf gwrthdroi, un is-orsaf DNO, gorsaf gasglu a chynhwysydd storio, gyda'r mwyafrif o'r cabanau i'w gorffen mewn lliw gwyrdd tywyll. Mae'r adeiladau yn amrywio o ran maint, ond ni ystyrir eu bod yn ormodol. Byddai'r strwythurau yn bennaf wedi eu lleoli tua rhan ogleddol y safle ond byddai rhai hefyd wedi ei lleoli yng nghanol y paneli solar. Gellir rhoddi amod fod yr holl adeiladau/strwythurau o liw gwyrdd tywyll. Bwriedir gosod ffens ddiogelwch hefyd i uchder o 2 fedr o gwmpas y safle ynghyd a chamerâu cylch cyfyng. Bwriedir i'r ffens a'r polion yma fod o liw gwyrdd. Ni ystyrir y byddai'r ffens na'r camerâu yn ychwanegu'n sylweddol at yr effaith weledol. Ar sail hyn, ystyrir fod y cyfarpar atodol yn addas ac na fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar y dirwedd, felly mae'r bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion maen prawf 3 o bolisi C27.

5.8 Mae maen prawf rhif 4 yn nodi na ddylai unrhyw wifrau na phibellau uwchben cysylltiedig achosi unrhyw niwed arwyddocaol i ansawdd gweledol y dirwedd. Mae'r Datganiad Dylunio a Mynediad yn nodi nad oes unrhyw fwriad i osod gwifrau uwchben y ddaear, ac mai trwy geblau tan ddaearol bydd y paneli solar wedi eu cysylltu. Mae'r bwriad felly yn cydymffurfio â maen prawf 4 o Bolisi C27.

5.9 Mae maen prawf rhif 5 o'r polisi yn nodi na ddylai'r datblygiad arfaethedig beri cynnydd annerbyniol mewn lefelau sŵn, drewdod, llwch na nwyon. Nid yw natur y datblygiad yma yn golygu y bydd unrhyw gynnydd mewn sŵn, drewdod, llwch na nwyon. Mae'n bosib y bydd cyfnod o aflonyddwch lleol yn ystod y cyfnod adeiladu, ond nid yw hyn yn cael ei ystyried yn sylweddol. Ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio â gofynion maen prawf rhif 5 o bolisi C27.

5.10 Mae maen prawf rhif 6 o'r polisi yn nodi na ddylai'r bwriad achosi unrhyw niwed annerbyniol i systemau hydrolegol (dwr daear a dŵr wyneb) gan niweidio bioamrywiaeth. Mae nifer o gyrsiau dwr ar y tir a hefyd gerllaw ac mae'r caeau yn eithaf gwlyb. Mae CNC yn argymell fod Cynllun Rheoli Dŵr Wyneb yn cael ei ddarparu. Ystyrir gyda'r manylion yma a'r camau lliniaru tebygol, byddai'r bwriad yn dderbyniol i gydymffurfio a gofynion maen prawf rhif 6 o bolisi C27.

5.11 Mae maen prawf rhif 7 o'r polisi yn nodi na fydd datblygiad yn cynhyrchu lefelau traffig annerbyniol o ystyried ansawdd y ffyrdd a natur yr ardal oddi amgylch. Bydd lefelau uchaf o draffig wedi eu cyfyngu i'r cyfnod adeiladu a ddisgwylir i fod oddeutu 16 wythnos. Byddai mynediad i'r safle i'w gael oddi ar y B4413 a byddai'r gwaith yn cynnwys addasu'r fynedfa bresennol i'r cae. Gan mai yn ystod y gwaith adeiladu y rhagwelir y bydd y lefelau traffig mwyaf ni ystyrir y byddai'r bwriad yn debygol o achosi aflonyddwch sylweddol. Serch hynny, mae mesurau wedi eu cynnwys yn y Cynllun Gwerthusiad Mynediad a Rheolaeth Traffig sy'n manylu ar y dulliau cludo a rheoli trafnidiaeth yn ystod y gwaith datblygu. Os gweithredir yn unol â'r manylion a nodir yn y datganiad, ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o agwedd lefelau trafnidiaeth ac yn cydymffurfio gyda gofynion polisi C27.

5.12 Ar sail yr uchod fe ystyrir y bwriad yn cydymffurfio a gofynion meini prawf polisi C27 CDUG.

5.13 Mae polisi C28 o'r CDUG yn ymwneud a diogelu tir amaethyddol a gwrthodir cynigion a fyddai'n arwain at golli tir amaethyddol graddau 1, 2 neu 3a oni ellir dangos bod angen hollbwysig am y datblygiad, y gellir profi nad oes tir a ddatblygwyd o'r blaen ar gael ac nad oes tir o raddau amaethyddol is ar gael heblaw tir ag iddo werth amgylcheddol sy'n gorbwyso ystyriaethau amaethyddol. Yn yr achos yma, mae adroddiad sydd wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais yn cadarnhau fod y tir yn ddosbarth 3b a 4 ac felly mae'r bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisi C28 uchod.

5.14 Ar sail yr uchod, ystyrir felly fod egwyddor y bwriad yn dderbyniol a'i fod hefyd yn cyd-fynd gyda'r Polisi Strategol ar gyfer darparu ynni o ffynonellau adnewyddadwy.

**Mwynderau gweledol**

5.15 Mae Polisi B8 o'r Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd yn ymwneud gydag gwarchod, cynnal a gwella cymeriad yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol drwy sicrhau fod cynigion yn anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig y safle. Nid yw'r safle ei hun o fewn AHNE ond mae'r AHNE yn weddol agos i'r ffin a derbynnir y byddai'n weladwy o rai mannau yn yr AHNE. Byddai'r rhain fodd

bynnag yn bennaf yn olygfeydd o bell megis o diroedd uwch yn ardal Mynydd Rhiw a Garn Fadryn. O asesu'r manylion a gyflwynwyd fel rhan o'r cais gan gynnwys ffotogyfosodiadau a dynnwyd o ardal yr AHNE tuag at y bwriad nid oes pryder sylweddol am effaith mwynderau gweledol yr AHNE ac ni ystyrir y byddai'r bwriad yn cael effaith arwyddocaol ar yr AHNE. Derbyniwyd sylwadau'r Uned AHNE ar y bwriad ac maent hwy hefyd o'r farn na fyddai'r bwriad yn cael effaith arwyddocaol ar yr AHNE. Gorwedd y safle hefyd o fewn Ardal Gwarchod y Dirwedd ond yn yr un modd oherwydd ei leoliad, tirlunio a thirffurfiau oddi amgylch ni ystyrir y byddai'r bwriad yn cael effaith andwyol ar yr Ardal Gwarchod y Dirwedd. Yn dilyn cyflwyno gwybodaeth ychwanegol yn cynnwys safbwyntiau gweledol yn dangos y safle a'i ehangder wedi ei farcio yn glir o fewn yr olygfa mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datgan eu bod yn fodlon y gall y fferm solar arfaethedig gael ei chymhwyso heb effaith sylweddol ar olygfeydd o'r AHNE. Mae sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi fod natur ystod eang golygfeydd, pellteroedd yr olygfa a lleoliad y datblygiad yn y tirlun sydd yn cynnwys patrwm gweledol cryf gydag amrywiaeth lliw yn deillio o'r clytwaith o gaeau, patrymau caeau a choedwigoedd i gyd yn gymorth i leihau cyferbyniad a phresenoldeb gweledol y datblygiad yn y tirlun. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn argymell fod amod i'r gwaith gael ei wneud yn unol gyda'r mesurau lliniaru tirlun a gynhwysir yn rhan 7 o'r ATEW (Wardell Armstrong Awst 2015) yn cael ei gynnwys ar unrhyw ganiatâd cynllunio. Yn sgil yr uchod felly ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o agweddau polisïau B8 a B12 CDUG.

**Dyluniad a deunyddiau**

5.16 Mae polisi B22 a B25 CDUG yn hyrwyddo dyluniad adeiladu da a deunyddiau adeiladu addas er mwyn anelu i ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y dirwedd a'r amgylchedd lleol. Fel sydd eisoes wedi ei nodi, mae'r bwriad hefyd yn cynnwys codi adeiladau atodol i leoli'r cyfarpar technegol. Byddai'r adeiladau yn amrywio o ran maint ac maent wedi eu dangos i fod o orffeniad lliw gwyrdd yn bennaf, a ystyrir yn orffeniad addas i'r lleoliad gwledig hwn ac yn adlewyrchu adeiladau amaethyddol. Mae bwriad hefyd i osod ffens ddiogelwch a chamerâu cylch cyfyng. Ystyrir fod y cyfarpar atodol arfaethedig yn addas, yn parchu'r safle a chymeriad y dirwedd ac felly yn cydymffurfio a gofynion polisïau B22 a B25 CDUG.

**Tirlunio**

5.17 Mae polisi B27 o'r Cynllun Datblygu Unedol yn ymwneud gyda sicrhau fod cynigion a ganiateir yn ymgorffori tirlunio meddal/caled o safon uchel sy'n briodol ar gyfer y safle. Ar y cyfan mae mwyafrif o ffiniau'r safle gyda gorchudd o dirweddu presennol, o goed a gwrychoedd sy'n amrywio o ran maint ac ansawdd. Ceir rhes drwchus o goed aeddfed ar y ffin ddwyreiniol fyddai'n sgrin effeithiol i'r bwriad, serch hynny mae mannau gwan. Mae'r Cynllun Rheoli Tirwedd a Bioamrywiaeth a gyflwynwyd yn dangos bod bwriad i blannu gwrych newydd a fyddai'n gymysgedd o Ddraenen Wen, Draenen Ddu, Ysgawen a rhywogaethau rhosyn ar ffin ddwyreiniol y cae mwyaf gogleddol o'r safle. Byddai'r planhigion sydd i'w plannu yn oddeutu 1.2 medr o uchel i ddechrau a byddent yn cael eu gadael i dyfu i uchder o 2.5 - 3 medr yn y pendraw. Byddai hefyd flodau gwyllt yn cael eu tyfu trwy'r safle. Er yr hyn sy'n cael ei gynnig ystyrir y byddai'n briodol rhoddi amod i gytuno manylion mwy o waith tirlunio er mwyn atgyfnerthu'r gwrychoedd presennol sydd mewn rhannau yn gymharol wan a thenau. Gellir rhoddi amod i gytuno cynllun tirlunio manylach fel rhan o'r caniatâd. Gwerthfawrogir y bydd y tirlunio'n debygol o gymryd amser i sefydlu a thyfu i raddau y byddai'n ffurfio sgrin effeithiol, serch hynny ystyrir fod y mesur hwn yn sicr o wella gwedd y safle yn y dirwedd. Ystyrir yn sgil yr uchod ac i ymgorffori'r tirlunio ychwanegol i ddogfen Cynllun Rheoli Tirwedd a Bioamrywiaeth ddiwygiedig y byddai'r bwriad yn dderbyniol o agwedd polisi B27.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.18 Mae polisi B23 o'r Cynllun Datblygu Unedol yn ymwneud a diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol. Mae meini prawf y polisi yn gofyn am sicrhau preifatrwydd rhesymol i ddefnyddwyr eiddo gerllaw, sicrhau na fydd y datblygiad yn or-ddatblygiad o'r safle, na fydd y datblygiad yn ychwanegu at draffig na sŵn, fod y cynllun yn lleihau cyfleoedd i unigolion ymddwyn yn anghymdeithasol a bod dyluniad a chynllun allanol y datblygiad yn ystyried anghenion ei holl ddefnyddwyr posib.

5.19 Fe dderbyniwyd gohebiaeth yn gwrthwynebu oddi wrth berchennog eiddo cyfagos yn gwrthwynebu yn benodol ddatblygu'r cae lleiaf ar ran gogleddol y safle a hynny yn bennaf ar sail yr effaith ar y golygfeydd o'r eiddo ac effaith fflachio a llacharedd. Mae Caeau wedi ei leoli oddeutu 273 medr i'r dwyrain o'r safle gyda phrif edrychiad yr eiddo tuag at y de orllewin, er bod estyniad wedi ei ganiatáu byddai gyda ffenestri yn edrych tuag at y safle. Y cae gogleddol sydd gyda'r potensial o amharu ar yr eiddo ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y gwrthwynebiad gan mai at y cae yma y cyfeirir yn y gwrthwynebiad. Fel y mae byddai'r safle yma yn weladwy o Caeau. O ran gosodiad y safle ochr y paneli fyddai'n wynebu'r eiddo yma. Mae bwriad i blannu gwrych a fyddai'n cael ei adael i dyfu i uchder o 2.5 i 3 medr o uchel ar ffin ddwyreiniol y cae a byddai hyn yn fodd o sgrinio'r bwriad a lleihau ei ardrawiad gweledol o eiddo Caeau. O ystyried hyn a phellter yr eiddo o'r safle, oddeutu 273 medr, ni chredir y byddai'r datblygiad yn ormesol i breswylwyr yr eiddo ac na fyddai'r effaith ar y tirlun mor niweidiol i gyfiawnhau gwrthod y cais. Er bod y safle yn sylweddol, ni ystyrir fod y bwriad yn golygu gor-ddatblygiad o'r safle yn yr achos yma. Mae'r ymateb i ymgynghoriad gan Uned Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd yn cadarnhau bod modd sicrhau rheoli llif traffig yn effeithiol. Yn sgil yr uchod ni ystyrir y byddai'r bwriad felly yn achosi niwed arwyddocaol i fwynderau'r gymdogaeth ac ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion polisi B23 uchod.

5.20 Mae polisi B34 o'r Cynllun Datblygu Unedol yn ymwneud â llygredd golau a goleuni ac mae'n sicrhau nad yw cynigion yn amharu'n sylweddol ar amwynder defnydd tir cyfagos a'r amgylchedd. Mae'r polisi yma'n benodol yn ymwneud â chynlluniau golau, ond mae eglurhad y polisi hefyd yn cyfeirio at effaith llacharedd.

5.21 Mae'r Asesiad Fflachio dderbyniwyd fel rhan o'r cais yn cydnabod fod yna botensial i effaith fflachio fod yn bresennol o eiddo unigol ac o rai ffyrdd o amgylch y safle. Mae'n bosibl fodd bynnag y byddai sgrinio presennol o amgylch y safle ei hun a hefyd yn yr ardal leol drwy ffurf coed a gwrychoedd yn atal mwyafrif yr effeithiau yma ond na ellir cadarnhau hyn yn derfynol. Felly ar rhai adegau o'r dydd a'r flwyddyn mae potensial ar gyfer adlewyrchiad fflachio. Mae'r effeithiau yma wedi ei labelu i fod o ddwyster isel ac oherwydd anamledd yr achosion yma, hyd yn oed os ydynt yn weledol, ni ddisgwylir iddynt achosi niwsans sylweddol i breswylwyr. Mae'r Asesiad Fflachio hefyd yn argymell y dylai'r gwrychoedd o amgylch y safle gael eu gadael i dyfu i fod yn 2.5-3 medr o uchel ac y dylai unrhyw fannau gwag gael eu plannu. Byddai hyn yn bennaf yn lleihau effaith weledol y bwriad i dderbynyddion gweledol gerllaw'r safle ond hefyd yn lleihau effaith y bwriad o olygfeydd pell.

5.22 Mae eiddo'r gwrthwynebydd, sef Caeau, wedi ei leoli oddeutu 270 medr i'r dwyrain o'r safle. Yn yr Asesiad Fflachio cydnabyddir fod yna sgôp i fflachio ddigwydd i'r eiddo yma. O'r modelu wnaethpwyd mae potensial fflachio i'r eiddo yma rhwng Mawrth a Medi rhwng 17.50 a 19.00 a ni ddylai barhau am fwy na 30 munud y diwrnod. Mae'n debygol y byddai hyn o ddwysedd isel ond mae potensial am

ddwysedd canolig rhwng 17.30 a 18.30 yn ystod Mawrth - Ebrill a Medi - Hydref. Mae'r Asesiad Fflachio yn nodi fod sgrinio naturiol rhwng Caeau a'r safle. Yn dilyn ymweld gyda safle'r ni ystyrir fod yna sgrinio naturiol presennol rhwng safle'r cais a Caeau a hynny yn bennaf yn sgil y ffaith fod yr eiddo yma ar lefel debyg i ran ogleddol safle'r cais. Mewn ymateb i'r gwrthwynebiad derbyniwyd ychwanegiad at yr Asesiad Fflachio sydd yn rhoi sylw yn bennaf i effaith fflachio ar eiddo Caeau. Deallir o'r wybodaeth yma nad yw'r dull modelu ar gyfer asesu fflachio a llacharedd yn cymryd i ystyriaeth sgrinio gan baneli eraill o fewn y safle nag ychwaith sgrinio gan dirffurfiau. Wrth gymryd hyn i ystyriaeth deallir y byddai'r fflachio am gyfnodau llawer llai na'r 30 munud gafodd ei nodi yn yr adroddiad gwreiddiol gyda'r mwyafrif o'r fflachio rhagweledig o ddwysedd isel a ble na ddisgwylir iddo achosi niwsans. Mae peth fflachio dwysedd canolog i'w ddisgwyl yn ystod misoedd Mawrth a chanol Medi i ganol Hydref ond am gyfnodau llai o rhwng 2 a 22 munud y dydd a pan gymerir i ystyriaeth Mynydd Rhiw (3.75km) i'r gorllewin o'r safle disgwylir i hyn gael ei leihau ymhellach o 68%. Nid yw hyn ychwaith yn cymryd i ystyriaeth y gwrych ychwanegol sydd i'w blannu ar ffin ddwyreiniol y cae gogleddol. Tra'n cydnabod fod yna botensial fflachio a llacharedd, o ystyried cynnwys yr asesiadau, bwriad i blannu gwrych newydd ynghyd a bwriad fel y cyfeiriwyd yn flaenorol yn yr adroddiad i gael cynllun tirlunio pellach fyddai'n cynnwys am atgyfnerthu'r gwrychoedd presennol ni ystyrir y byddai'r bwriad yn achosi niwed arwyddocaol o safbwynt amwynder. Ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisi B34 uchod.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.23 Mae polisi CH33 o'r Cynllun Datblygu Unedol yn ymwneud a sicrhau diogelwch ar ffyrdd a strydoedd. Dim ond yn ystod cyfnod adeiladu'r fferm solar y disgwylir cynnydd mewn traffig. Byddai mynediad i'r safle i'w gael oddi ar y B4413 a byddai'r gwaith yn cynnwys addasu'r fynedfa bresennol. Bwriedir ei haddasu i ddechrau am gyfnod dros dro tra mae'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo. Mae bwriad wedyn i newid y fynedfa yn barhaol i ffurf mynedfa amaethyddol safonol gyda'r giât wedi ei gosod yn ôl yn hytrach nag ei bod wedi ei lleoli gydag ochr y ffordd. Ystyrir y byddai hyn yn welliant o ran diogelwch ffyrdd gan y byddai cerbydau yn gallu tynnu mewn oddi ar y ffordd sirol i agor a chau'r giât. Byddai hyn yn welliant o safbwynt y rhai sy'n cynnal a chadw'r safle a hefyd o ran bod yn fynediad i'r caeau yn gyffredinol. Bwriedir hefyd gael trac wyneb graean yn mynd gydag ochr y cae o'r fynedfa tuag at safle'r fferm solar. Mae'r Uned Drafnidiaeth yn fodlon a'r bwriad o agwedd diogelwch ffyrdd ac yn argymell amodau o ran cwblhau'r fynedfa yn unol gyda'r cynlluniau. Ystyrir hefyd y byddai'n briodol fod amod yn cael ei roi fod y gwaith adeiladu yn cael ei wneud yn unol gyda'r Cynllun Gwerthusiad Mynediad a Rheoli Traffig gan fod hwn yn gosod allan fanylion o sut y bwriedir rheoli llif traffig a sicrhau diogelwch ffyrdd wrth adeiladu'r fferm solar. Ar sail yr uchod ni ystyrir y byddai'r datblygiad yn achosi effaith andwyol ar ddiogelwch ffyrdd ac felly ystyrir yn cydymffurfio a gofynion polisi CH33 CDUG.

**Materion Cadwraeth ac Archeolegol**

5.24 Gorwedd y safle o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llyn ac Ynys Enlli. Derbyniwyd sylwadau gan Cadw sy'n datgan fod potensial i'r datblygiad gael mwy nag effaith lleol ond o ystyried fod maint Ardal Cymeriad Neigwl yn fawr o'i gymharu gyda graddfa'r datblygiad na ystyrir yn yr achos yma y byddai ASIDOHL2 yn gynhyrchiol yn yr achos yma. Byddai patrymau ffisegol y caeau ar y cyfan yn cael eu cadw ac yn sgil ei leoliad, tirlunio a thirffurfiau ni ystyrir y byddai'r bwriad yn amharu yn sylweddol ar y Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol. Byddai'r bwriad hefyd ar ddiwedd cyfnod gweithredu'r fferm solar yn cael ei ddychwelyd i'w gyflwr presennol ac felly ystyrir fod nodweddion hanesyddol y safle

yn cael ei gadw yn yr hirdymor. Ni ystyrir felly fod effaith andwyol ar y Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol a'i fod yn dderbyniol o safbwynt Polisi B12 CDUG.

5.25 Mae polisi B7 o’r Cynllun Datblygu Unedol yn ymwneud â safleoedd o bwysigrwydd archeolegol, ac mae’n gwrthod cynigion fydd yn difrodi neu ddifetha gweddillion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol (boed yn rhai cofrestredig ai pheidio) neu eu gosodiad. Fel rhan o’r cais cyflwynwyd Adroddiad Arolwg Geoffisegol a hefyd Asesiad Archeolegol a Threftadaeth Ddiwylliannol. Wrth ymgymryd gyda’r arolwg i’r Adroddiad Arolwg Geoffisegol darganfyddwyd ffiniau blaenorol y caeau ynghyd a draeniau tir posibl a cwys aradr. Mae’r mwyafrif o’r anomaleddau geoffisegol ddarganfyddwyd yn ymddangos, yn ôl y dogfennau gyflwynwyd yn rhan o’r cais, i fod yn nodweddion daearegol a ni ddarganfyddwyd weddillion archeolegol penodol. Ymgynghorwyd gyda’r Gwasanaeth Cynllunio Archeoleg Gwynedd ac nid ydynt yn cytuno gyda’r asesiad a’r argymhellion mewn perthynas gyda potensial o weddillion archeolegol gladdedig. Er nad yw’r un o’r adroddiadau wedi adnabod archeoleg clir ar y safle, mae canlyniadau’r arolwg geoffisegol yn amhendant. Cytunir y gall llawer o’r anghysondebau gael eu priodoli i darddiad naturiol neu amaethyddol diweddar, er mae’r canlyniadau yn y cae deheuol yn ddangosol o dir gwlyb ble gall anghysondebau archeolegol fod yn aneglur. Yn y cae gogleddol adnabu’r arolwg anghysondebau cromliniog mewn dwy ardal. Mae rhain wedi cael eu dehongli dros dro fel daearegol, ond mae eu ffurf a’u lleoliad ar lawr gymharol wastad uwchben cwrs dwr ac yn agos i gydlifiad yn dangos fod tarddiad archaeolegol yn bosibl. Mae’r dehongliad archeolegol mwyaf posibl yn un o loc cyn hanes. Mae un o’r ardaloedd yma yn cyd-daro gyda lleoliad arfaethedig y prif gompownd ac felly gall gael effaith ar osodiad, ac o bosibl dichonoldeb y bwriad pe bai yn cael ei gadarnhau yn archeolegol. Mae angen rhagor o waith ymchwil yn cynnwys ffosydd prawf er mwyn sefydlu os yw’r anghysondebau geoffisegol yn naturiol neu archaeolegol ac i sefydlu dilysrwydd canlyniadau’r arolwg a’r potensial am weddillion archeolegol. Gan fod angen y wybodaeth i alluogi asesu effaith y datblygiad ar yr amgylchedd hanesyddol mae’n rhaid i’r ffosydd prawf gael ei wneud cyn penderfynu ar y cais cynllunio. Deallir fod yr ymgeisydd wedi bod mewn cysylltiad gyda Gwasanaeth Cynllunio Archeoleg Gwynedd yn dilyn derbyn eu sylwadau ond ni dderbyniwyd unrhyw wybodaeth ychwanegol pan yn paratoi’r rhaglen. O’r Asesiad Archeolegol a Threftadaeth Ddiwylliannol gellir gweld y byddai’r effaith ar ddynodiadau treftadaeth dynodedig fel henebion cofrestredig a geir ar Garn Fadryn a Mynydd Rhiw yn effaith bychan groes. Ar sail yr uchod bydd angen i’r ymgeisydd gyflwyno rhagor o fanylion archeolegol er asesu os yw’r bwriad yn cydymffurfio gyda pholisi B7 CDUG.

5.26 Mae polisi B3 yn gwarchod gosodiad adeiladau rhestredig. Mae’r nifer o adeiladau rhestredig i’w cael yng nghyffiniau’r safle. Fodd bynnag, oherwydd nodweddion y topograffi a llystyfiant ni ystyrir y byddai’r datblygiad yn amharu ar osodiad yr adeiladweithiau rhestredig yma. Mae’r Asesiad Archeolegol a Threftadaeth Ddiwylliannol yn datgan mai effaith bychan groes fyddai ar yr adeiladau rhestredig. Ni ystyrir y byddai’r datblygiad yn arwain at ddifrïo gosodiad a pherthynas yr adeiladau rhestredig a’r tir cyfagos. Ystyrir felly fod y bwriad yn dderbyniol o agwedd polisi B3 CDUG.

**Materion Bioamrywiaeth**

5.27 Cyflwynwyd Adroddiad Ecolegol a Chynllun Rheolaeth Bioamrywiaeth a Thirwedd fel rhan o’r cais ac fe aseswyd ei gynnwys gan yr Uned Bioamrywiaeth a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae’r Uned Bioamrywiaeth a Chyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno gyda’r asesiadau sydd wedi eu gwneud a’r hyn sy’n cael ei argymell ar gyfer rheoli bioamrywiaeth ar y safle. Mae’r Uned Bioamrywiaeth wedi awgrymu amodau i’w

rhoddi ar ganiatâd cynllunio gan gynnwys cydymffurfio gyda'r mesurau yn Nhabl 1 Atodlen Rheolaeth Gweithgareddau'r Cynllun Rheoli Tirwedd a Bioamrywiaeth, cyflwyno Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu cyn i'r gwaith gychwyn, cyflwyno manylion cymysgedd hadau ar gyfer creu porfa, cyflwyno manylion lleoliad blychod ystlumod ag adar a chyflwyno canlyniad asesiadau blynyddol a chynllun rheolaeth ddiwygiedig ar ddiwedd cyfnod 5 mlynedd gyntaf y cynllun. Mae'r Uned Bioamrywiaeth hefyd o'r farn fod gan y datblygiad yma'r potensial i ddod a budd i fioamrywiaeth yn y tymor hir. Yn sgil eu sylwadau, ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o agwedd bioamrywiaeth ac na fyddai'n cael effaith andwyol ar rywogaethau gwarchodedig na'i chynefinoedd os gweithredir yn unol â'r amodau a gynigir. Mae'r bwriad felly yn dderbyniol o safbwynt Polisi B20.

**Materion Llifogydd**

5.28 Gorwedd y safle o fewn parth llifogydd A fel y diffinnir ar gyfer pwrpas NCT 15 : Datblygiad a Pherygl o Lifogydd. Mae'r safle felly mewn ardal ble na ystyrir fod llifogydd yn gyfyngiad i ddatblygiad ond paratowyd Asesiad Canlyniadau Llifogydd fel rhan o'r cais er mwyn asesu pryderon yn ymwneud gyda llif dwr wyneb yn gysylltiedig gyda'r bwriad. Ymgynghorwyd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ar y cais ac maent wedi argymell amodau yn ymwneud gyda chyflwyno manylion a gweithredu system rheoli dŵr wyneb a hefyd na fydda adeiladau, strwythurau na chodi tir o fewn 4 medr i ben glan unrhyw gwrs dwr. Ystyrir felly fod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt Polisi B29 CDUG ac os gosodir amod i gyflwyno manylion system rheoli dŵr wyneb ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o ran Polisi B32 CDUG.

**Cyfnod Gweithredol**

5.29 Mae'r cais yn gofyn am gyfnod gweithredol hwy na'r arfer ar gyfer datblygiadau o'r fath. Wrth ystyried y byddai'r datblygiad yn parhau i fod yn un dros-dro ac nad yw'r ychwanegiad at y cyfnod yn un arwyddocaol o safbwynt unrhyw ystyriaeth cynllunio arwyddocaol, fe ystyrir bod caniatáu'r datblygiad am 30 mlynedd yn hytrach na'r 25 mlynedd arferol yn dderbyniol.

**Budd cymunedol**

5.30 Cyflwynwyd Datganiad o Ymlyniad Cymunedol gyda'r cais. Ymddengys bod y datblygwyr wedi ymgymryd â nifer o fesurau i hysbysebu'r gymuned leol o'r bwriad, gyda thaflenni i'r cyhoedd ac arddangosfa leol wedi cymryd lle. Deallir hefyd os bydd y cais yn cael ei ganiatáu y bydd cyfle gan drigolion cymuned Botwnnog i fuddsoddi yn y fferm solar gyda'r buddsoddiad lleiaf oddeutu £60.

**Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

5.31 Mae'r asesiad uchod yn rhoi ystyriaeth lawn i'r sylwadau a dderbyniwyd ar y cais o ganlyniad i'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus ac ni ystyrir fod unrhyw fater cynllunio perthnasol wedi ei dderbyn sy'n gorbwyso'r ystyriaethau polisi perthnasol.

## 6. Casgliadau:

6.1 Yn unol gyda sylwadau Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd bydd angen cyflwyno manylion archeolegol ychwanegol cyn y gellir penderfynu'r cais. Fodd bynnag, ac eithrio'r materion archeolegol, ni ystyrir fod y bwriad yn groes i unrhyw un o'r polisïau perthnasol a nodir uchod ac nad oes yna unrhyw fater cynllunio perthnasol arall sy'n datgan i'r gwrthwyneb. Ystyrir felly y byddai'n rhesymol i ddirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio ganiatau'r cais yn ddarostyngedig i dderbyn gwybodaeth archeolegol ddigonol sy'n bodloni Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i dderbyn gwybodaeth archeolegol ddigonol sy'n bodloni Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd ac i amodau:-

1. Cychwyn o fewn 5 mlynedd.
2. Unol gyda chynlluniau.
3. Rhaid lleoli'r paneli yn y lleoliadau a ddangosir ar y cynlluniau neu fel y cytunwyd mewn ysgrifen gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol
4. Cytuno deunyddiau allanol yr holl adeiladau, ffens a pholion camerâu
5. Cytuno deunyddiau/lliwiau'r fframiau a'r gorchudd di-llachareddd.
6. Cyflwyno manylion tirlunio ychwanegol am gymeradwyaeth i gynnwys atgyfnerthu'r gwrychoedd presennol ar y ffiniau.
7. Ymgymryd â'r gwaith yn unol gyda'r cynllun tirlunio yn y tymor plannu cyntaf ar ôl cychwyn.
8. Ymgorffori'r manylion tirlunio ychwanegol i mewn i ddogfen Cynllun Rheoli Tirwedd a Bioamrywiaeth ddiwygiedig.
9. Adeiladu'r fynedfa safle dros dro yn unol gyda'r cynllun a gyflwynwyd.
10. Adeiladu'r fynedfa barhaol yn gwbl unol a'r cynllun a gyflwynwyd a'i chwblhau o fewn mis o gwblhau'r datblygiad fferm solar.
11. Datblygu'r safle yn unol gyda'r Cynllun Gwerthusiad Mynedfa a Rheolaeth Traffig a'r Datganiad Dull Adeiladu.
12. Angen cwblhau'r datblygiad yn unol â Thabl 1 Atodlen Rheolaeth Gweithgareddau'r Cynllun Rheoli Tirwedd a Bioamrywiaeth.
13. Cyflwyno a chytuno Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu (Construction Environmental Management Plan- CEMP) cyn i'r gwaith gychwyn. Dylai gynnwys mesurau atal llygredd ar ffurf cynllun rheoli achos o lygredd.
14. Cyflwyno a chytuno manylion cymysgedd hadau ar gyfer creu porfa i'r awdurdod am gymeradwyaeth cyn i'r gwaith ail-hadu gychwyn.
15. Cyflwyno a chytuno manylion lleoliad blychod ystlumod ag adar i'r awdurdod.
16. Cyflwyno canlyniad asesiadau blynyddol ynghyd a chynllun rheolaeth ddiwygiedig ar ddiwedd cyfnod 5 mlynedd gyntaf y Cynllun fel y manylir yn Amcan 6 o'r Cynllun Rheolaeth.
17. Cwblhau'r gwaith yn unol gyda rhan 4 Crynodeb ac Argymhellion o'r Arolwg Cyfyngiadau Coed.
18. Angen cyflwyno a chytuno cynllun rheoli dŵr wyneb ac yna gweithredu'r datblygiad yn unol gyda'r cynllun a gytunwyd.
19. Dim adeiladau, strwythurau na chodi lefel tir o fewn 4 medr i ben glan unrhyw gwrs dwr.
20. Ac eithrio'r goleuadau adeg gwaith adeiladu ni chaniateir unrhyw oleuo o'r safle oni bai y cytunir ymlaen llaw gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.
21. Dylid gosod unrhyw geblau trydan o'r datblygiad i'r cysylltiad trydanol o dan ddaear yn unol â'r manylion a ddangosir ar gynllun Botwnnog Solar Farm_P23_P0C_RevB.
22. Caniatâd am 30 mlynedd.
23. O fewn 12 mis i'r paneli solar a ganiateir drwy hyn beidio cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu trydan, rhaid eu tynnu'n barhaol oddi ar y tir ac adfer y safle yn ôl i'w gyflwr gwreiddiol.
24. Y datblygiad i gael ei wneud yn unol gyda'r mesurau lliniaru tirlun a gynhwysir yn rhan 7 o'r ATEW (Wardell Armstrong Awst 2015).

Nodiadau

1. Angen hawl o dan Adran 171 / 184 Deddf Priffyrdd 1980 am unrhyw waith o fewn ffordd / palmant / ymyl glas.

2. Holl gostau am arwyddion ffyrdd, marciau ffyrdd a gorchymyn traffig i'w talu gan yr ymgeisydd.
3. Angen hawl o dan Adran 40 o Ddeddf Priffyrdd 1980 i osod cyfarpar o fewn neu o dan briffordd.
4. Angen cymryd pob gofal i atal dŵr wyneb o gwrtil y safle rhag arllwys i'r briffordd.
5. Angen copi o lythyr 6 Rhagfyr 2015 Dwr Cymru a'r angen i fod yn ymwybodol o'r canllawiau a geir ynddo.
6. Diogelu cyrsiau dwr.
7. Copi o lythyr Cyfoeth Naturiol Cymru 16 Rhagfyr 2015 ar angen i fod yn ymwybodol o'r canllawiau a gynhwysir ynddo o ran osgoi llygredd a rheoli gwastraff.